Awgrymiadau Defnyddiol 3

Datblygiad Iaith
Defnyddio geiriau

Bydd cyflwyno'r gweithgareddau hyn i fywyd bob dydd yn helpu pob plentyn ifanc i ddatblygu iaith, a gall fod yn arbennig o ddefnyddiol i blant sy'n dechrau siarad yn hwyrach nag eraill.

Gofynnwch gwestiynau agored yn lle rhai caeedig, fel *"Beth yw hwnnw?", "Pwy yw hwnnw?", "Hoffet ti sudd oren neu laeth?", "A yw'r dyn hwnnw'n yfed neu'n cysgu?", "Ai ci neu fuwch yw hwnnw?".*

Cadwch focs gyda phump neu chwe gwrthrych bob dydd, fel cwpan, brwsh neu hosanau. Bob dydd dangoswch un eitem i'r plentyn ar y tro a'i helpu i'w defnyddio. Dywedwch y gair sydd debycaf o olygu rhywbeth i'r plentyn, fel *"Brwsia dy wallt; edrycha, mae Mam yn brwsio'i gwallt, brwsio, brwsio, brwsio".*

Chwaraewch gemau sy'n pwysleisio arddodiaid fel: o dan, ar, o flaen, tu ôl, wrth ymyl, rhwng. Defnyddiwch un neu ddau i ddechrau.

Adroddwch straeon byrion, ac wedyn symudwch at rigymau hirach ac anogwch y plentyn i ymuno.

Chwaraewch gemau sy'n cynnwys rhagenwau - ei, eu ac ati, a gemau sy'n cynnwys enwau rhannau o'r corff.

Defnyddiwch achlysuron fel gwisgo i helpu'r plentyn i ymarfer yr hyn y mae'n dysgu i'w deall. Er enghraifft, gofyn i'r plentyn fynd i nôl dillad. Gofynnwch am un eitem ar y tro nes bod y plentyn yn deall yn llawn. Defnyddiwch luniau syml clir wrth gyflwyno geiriau a straeon newydd.

Afasic Cymru
Ystafell 203
Tŷ Titan
Canolfan Fusnes Bae Caerdydd
Heol Lewis
Ocean Park
Caerdydd CF24 5BS

Ffôn: 029 2046 5854
Ffacs: 029 2046 5861
Llinell gymorth: 08453 55 55 77
E-bost: jeannette@afasiccymru.org.uk
www.afasiccymru.org uk

Afasic Cymru